Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales

# CYNRYCHIOLAETHAU A WNAED MEWN PERTHYNAS AG ARGYMHELLION DROS DRO AR GYFER SIR GADWEDIG CLWYD

## Crynodeb o'r Cynrychiolaethau

**Mai 2004**

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg neu yn Saesneg.

**Crynodeb o'r Cynrychiolaethau a wnaed mewn perthynas ag argymhellion dros dro y Comisiwn ar gyfer Sir Gadwedig Clwyd a gyhoeddwyd ar 5 Ionawr 2004**

## CYMERADWYAETH

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Plaid Geidwadol Cymru | Yn cefnogi'r cynigion ar gyfer Clwyd |
| 2 | Llafur Cymru | Yn cefnogi pob agwedd ar yr argymhellion dros dro yn llwyr. |
| 3 | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | Yn cefnogi'r cynigion ynghylch Clwyd. |
| 4 | Ceidwadwyr Conwy | Yn cefnogi'r cynigion i neilltuo saith etholaeth i Glwyd. Mae'r newidiadau i Gonwy yn synhwyrol ond gwneir cynnig arall y gellir ei ddefnyddio os bydd angen lleihau'r gwahaniaeth yn y Sir Gadwedig. |
| 5 | Etholaeth Dyffryn Clwyd y Blaid Lafur | Mae Etholaeth Dyffryn Clwyd y Blaid Lafur yn cymeradwyo'r cynigion ar gyfer etholaeth Dyffryn Clwyd. |
| 6 | Mr David Hanson AS | Yn cymeradwyo'r argymhellion sy'n berthnasol i Alyn a Glannau Dyfrdwy. |
| 7 | Mr Martyn Jones AS | Yn cymeradwyo'r cynigion yn gyffredinol ac yn enwedig y rheiny ar gyfer De Clwyd gan eu bod yn synhwyrol ac yn gadael lle am dwf yn y dyfodol. |
| 8 | Mr Ian Lucas AS | Mae Mr Lucas yn cefnogi'r cynigion ar gyfer Wrecsam. |
| 9 | Mr Chris Ruane AS | Yn cytuno â'r cynigion ynghylch Dyffryn Clwyd a phob cynnig arall ynghylch Gogledd Cymru. |
| 10 | Ms Ann Jones AC | Yn fodlon, yn fras, ar y cynigion ar gyfer sir gadwedig Clwyd ac yn enwedig ar gyfer etholaeth Dyffryn Clwyd. |
| 11 | Ms Sandy Mewies AC | Yn fodlon ar yr argymhellion dros dro sy'n berthnasol i Delyn. |
| 12 | Ms Karen Sinclair AC | Yn cefnogi'r cynigion ar gyfer De Clwyd. |
| 13 | Cyng. Donald Holder | Wedi cyflwyno argymhelliad bod Cyngor Sir Ddinbych yn cadw'n union fel y nodir yn "Argymhellion Dros Dro Comisiwn Ffiniau I Gymru 2004". |
| 14 | Cyng. H Eifion Jones | Yn cefnogi sedd newydd Conwy. |
| 15 | Cyng. Glyn Williams | Mae Grŵp Llafur Cyngor Sir Ddinbych yn cytuno â'r argymhellion ar gyfer Dyffryn Clwyd. |
| 16 | Is-gapten D J Beesley KT, Y Llynges Frenhinol | Yn cefnogi'r cynigion ar gyfer Conwy yn ddiamod. |
| 17 | Mr M Z de Ferranti | Mae Mr de Ferranti yn cymeradwyo'r cynigion ar gyfer Conwy. |
| 18 | Mrs Anne Roberts | Yn cefnogi'r cynigion ar gyfer Conwy. Yn meddwl bod cynnwys dwy ochr dyffryn Conwy yn synhwyrol. Felly hefyd yw creu Arfon gan fod gan y ddwy ardal fwy yn gyffredin nag sydd gan Fangor â Llandudno. |
| 19 | Mr Neville Yates | Yn cytuno'n llwyr â'r cynigion ar gyfer Conwy. |

## GWRTHWYNEBIAD

| | | |
|---|---|---|
| 20 | Mrs Betty Williams AS | Yn credu y dylid ystyried Clwyd a Gwynedd gyda'i gilydd er mwyn cael y cydbwysedd etholiadol gorau rhwng yr etholaethau. |
| 21 | Mr D Fox | Byddai'n well ganddo weld un etholaeth Conwy ac un etholaeth Dinbych ond mae'n cynnig dewisiadau eraill. Yn awgrymu y dylai Sir Y Fflint a Wrecsam gael pedair etholaeth: Y Fflint, Yr Wyddgrug, Caergwrle a Wrecsam. |

## GYMERADWYAETH RHANNOL/GWRTHWYNEBIAD RHANNOL

| | | |
|---|---|---|
| 22 | Cyngor Sir Ddinbych | Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cymeradwyo'r cynigion ar gyfer y tair etholaeth yng Nghlwyd ond yn gwrthwynebu'r enwau gan y byddai'n well ganddynt weld un enw dwyieithog i'r tair. Mae hefyd yn gwrthwynebu cyfansoddiad rhanbarth etholiadol Gogledd Cymru. |
| 23 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Mae cefnogaeth gyffredinol i'r newidiadau arfaethedig i ardal Conwy ond mae gan y Cyngor gynnig arall os bydd angen lleihau'r gwahaniaeth yn nifer yr etholwyr o fewn Conwy. Mae'n gwrthwynebu'r enwau ar gyfer etholaethau Clwyd a Gorllewin Clwyd. |
| 24 | Cyngor Tref Llandudno | Yn cefnogi'r cynigion ar gyfer Conwy ond yn gwrthwynebu'r enw gan ei fod eisoes yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Sir a Chymuned a gallai fod yn gamarweiniol. Byddai'n well ganddo 'Aberconwy' am resymau hanesyddol a rhesymegol. |
| 25 | Cangen Aberconwy y Blaid Lafur | Mae Cangen Aberconwy y Blaid Lafur yn cymeradwyo'r cynigion ar gyfer Conwy ond yn gwrthwynebu enw'r etholaeth. Byddai'n well ganddynt 'Aberconwy' er mwyn ei gwahanaiethu â'r Sir. |
| 26 | Etholaeth Conwy y Blaid Lafur | Mae Etholaeth Conwy y Blaid Lafur yn cymeradwyo'r cynigion ar gyfer Gogledd a Chanolbarth Cymru ond yn gwrthwynebu'r enw 'Conwy' gan y byddai'n well ganddo 'Aberconwy' er mwyn osgoi peri dryswch. |
| 27 | Cyng. Phillip C Evans | Yn awgrymu y dylai Etholaeth Sirol Gorllewin Clwyd gael ei hailenwi'n Clwyd Canolog a dylid enwi Etholaeth Sirol Conwy yn naill ai Etholaeth Sirol Aberconwy neu Ddyffryn Conwy. Yn cefnogi'r cynigion am resymau daearyddol a demograffaidd. |
| 28 | Mr R J Davies | Yn gwrthwynebu'r enw ar etholaeth arfaethedig Conwy yn unig. Yn awgrymu Gorllewin Conwy fel dewis arall. Byddai Gorllewin Clwyd wedyn yn dwyn yr enw Dwyrain Conwy. |
| 29 | Mr Liam Pennington | Dylid enwi Etholaeth Dyffryn Clwyd yn Etholaeth Sirol Dinbych, Y Rhyl a Phrestatyn neu yn Etholaeth Arfordirol Sir Ddinbych I adlewyrchu natur y sedd. |

Y prif wrthwynebiad i'r argymhellion dros dro yw enwau'r etholaethau arfaethedig, yn enwedig etholaeth Conwy.

Tŷ Caradog, 1-6 Plas Sant Andreas, Caerdydd CF10 3BE
Caradog House, 1-6 St Andrew's Place, Cardiff CF10 3BE
☎ (029) 2039 5031 Fax/Ffacs (029) 2039 5250
e-mail: bcomm.wales@wales.gsi.gov.uk / e-bost : comffin.cymru@wales.gsi.gov.uk
Web Site: www.bcomm-wales.gov.uk Gwefan: www.comffin-cymru.gov.uk